


Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL

01 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025

www.mawwfrs.gov.uk

This document is available in English





# Rhagair

Rwy'n falch iawn o gyflwyno Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025. Dyma ein hadroddiad cyntaf o dan ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024 – 2028, sy'n tynnu sylw at y camau rydyn ni wedi'u cymryd i ymgysylltu â'n cymunedau, i gefnogi anghenion amrywiol ein staff, ac i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach yn ein sefydliad.

Yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yw un o'r prif ffyrdd sydd gennym o ddangos ein hymrwymiad i'n rhwymedigaethau cyfreithiol a moesol—cydnabod amrywiaeth, hyrwyddo cynhwysiant, a sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Rydym wedi parhau i gyflwyno ein gwasanaethau brys rheng flaen hanfodol a'n gweithgareddau diogelu ac atal risg uchel trwy gydol y flwyddyn, a hynny gan gasglu data ynghylch effaith ein gwaith yr un pryd.

Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i ni ddathlu ein llwyddiant parhaus wrth hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o fewn ein Gwasanaeth a'r cymunedau rydym yn falch o'u gwasanaethu. Er hyn, rydym yn cydnabod bod heriau sylweddol yn parhau, ac mae rhagor o waith pwysig i'w wneud er mwyn cael gwared ar wahaniaethu a chreu amgylchedd sy'n wirioneddol gynhwysol.

Mae'r sefydliad yn parhau i gynnal ei ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn teimlo bod cefnogaeth iddynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, waeth beth yw eu cefndir. Trwy gynnal gwaith ymgysylltu ac addysgu, ynghyd â mentrau ystyrlon, byddwn yn dal i ymdrechu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol – gan sicrhau bod ein gwasanaethau'n parhau i fod yn hygyrch, yn deg, ac yn ymatebol i anghenion amrywiol ein cymunedau.



Y Prif Swyddog Tân **Craig Flannery**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn croesawu sylwadau ar bob agwedd ar yr adroddiad hwn, a hynny o ran ei gynnwys neu bethau sy'n aneglur am y gwaith yr ydym wedi'i wneud.

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu os hoffech chi wybod mwy am y gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â:

**Mydrian Harries**
Cyfarwyddwr Adnoddau

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru,
Pencadlys y Gwasanaeth, Lôn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP
**Ffôn:** 01267 226830 | **E-bost:** m.harries@mawwfire.gov.uk

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Amdanom ni** | **2 – 4** |
| **Gweledigaeth ac Ymddygiadau – CRhRC2040** | **5** |
| **Pwy ydym ni** | **6** |
| **Y sefyllfa bresennol** | **7** |
| Amcan 1 | 7 |
| Amcan 2 | 8 |
| Amcan 3 | 9 |
| **Atodiadau:** | **11 - 25** |

Data Staff – Cyffredinol
Data Staff – yn ôl Data Recriwtio
Staff Cefnogol Lefel Rheolwyr
Data Recriwtio Amser Cyflawn
Data Recriwtio Ar Alwad
Data Dyrchafiadau
Data Adleoli
Data HFSC
Data Ymateb i Ddigwyddiadau


**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae'n bosib i ni ei gyhoeddi hefyd mewn fformatau ac ieithoedd eraill. Os hoffech gopi o'r adroddiad mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â humanresources@mawwfire.gov.uk os gwelwch yn dda.**

**Mae ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol a'r Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol cysylltiedig ar gael ar ein gwefan, neu mae'n bosib gofyn am gopi caled ym mha bynnag fformat sydd ei angen.**

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â blwyddyn ariannol Ebrill 2024 hyd Mawrth 2025, ac mae'n cael ei gyflwyno dan ofynion adrodd statudol rheoliad 16 Rheoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru).


## Beth mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ei olygu i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC)?

Mae'r Gwasanaeth yn credu bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn faterion busnes allweddol. Dyma'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r Gwasanaeth i gymeradwyo strategaethau sy'n ymwneud ag amrywiaeth:

- Rheoli risg ac enw da
- Gwella perfformiad unigolion a pherfformiad busnes
- Datblygu diwylliant creadigol a blaengar
- Bodloni anghenion ein cymunedau
- Denu, cadw, a datblygu aelodau staff
- Cydymffurfio â Deddfwriaeth

Mae cyfle cyfartal yn cynnwys: dull y Gwasanaeth o ddarparu gwasanaethau, ond hefyd o sicrhau mynediad at wasanaethau a gwybodaeth ac o ran cynnwys pobl mewn prosesau gwneud penderfyniadau, yn ogystal â sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth yn destun craffu parhaus a bod eu heffaith ar gydraddoldeb yn cael ei hasesu'n barhaus. Mae hyn yn angenrheidiol i sefydliad sy'n ymdrechu tuag at ddileu gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp/grwpiau neu unigolion.




AMDANOM NI
Rydym yn cynnwys y 6 Awdurdod Unedol canlynol
Powys
1350
o Staff
Yn cwmpasu
12,000
km2
43,568
o safleoedd annomestig
oddeutu
432,791
o aelwydydd
913,217
o bobl
1 April 2024 - 31 March 2025
999
Atebwyd
21,812
o alwadau brys
Mynychwyd
418
o alwadau i danau damweiniol yn y cartref
Mynychwyd
81
o danau cerbyd bwriadol
Ymatebwyd i
13,114
o ddigwyddiadau
2,583
o danau
4,599
o achosion brys heblaw tanau
5,832
o alwadau diangen
Mynychwyd
786
o wrthdrawiadau traffig ffyrdd lle roedd angen rhyddau
86
o bobl
149
o alwadau ffug
HOAX
(mynychwyd 130, ni fynychwyd 110 y nodwyd eu bod yn ffug gan y ganolfan reoli)
Ymgysylltwyd â
32,262
o bobl ifanc
Cynhaliwyd
11,752
o Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref

# Rôl yr Awdurdod Tân



Mae Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli wardiau unigol o fewn y 6 Awdurdod Unedol sydd yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. Dyma’r Awdurdodau Unedol:

City and County of Swansea – Dinas a Sir Abertawe; Cyngor Castell-nedd Port Talbot – Neath Port Talbot Council; Cyngor Sir Gâr – Carmarthenshire County Council; Cyngor Sir Penfro – Pembrokeshire County Council; Powys

Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch i'r cyhoedd, rhaglenni atal ac amddiffyn, a darpariaeth ymateb brys ar gyfer ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae’r sefydliad yn cyflogi oddeutu 1,300 aelod o staff o fewn y gwahanol gategorïau cyflogaeth, hynny yw, Staff yr Ochr Weithredol, Staff yr Ystafell Reoli, a Staff Cefnogol, ac mae’n gwasanaethu tua 4,500 milltir sgwâr – bron i ddau draean o Gymru, sy’n cynnwys amrywiaeth eang o gymunedau yn ei hardaloedd arfordirol, trefol, a gwledig.

## Rôl yr Awdurdod Tân

Rôl Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yw cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol, yn benodol:

- Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.
- Gorchymyn Gwasanaethau Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995 fel y’i diwygiwyd (y Gorchymyn Cyfuno) a sefydlodd Awdurdod Tân Cyfun ar gyfer ardaloedd sirol newydd Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe.
- Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.
- Gorchymyn Cynlluniau Cyfunol y Gwasanaethau Tân ac Achub (Amrywio) (Cymru) 2009.
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
- Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016.
- Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Rheoliadau Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol (Cymru) 2021.

Mae gan yr Awdurdod rwymedigaeth statudol i gynnal Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n gallu ymateb yn effeithiol i alwadau am gymorth pan fo tanau ac argyfyngau eraill.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu pobl, eiddo, a’r amgylchedd rhag tanau ac argyfyngau eraill, yn ogystal â darparu gwasanaethau dyngarol eraill. Byddwn yn gwneud hyn trwy gynnwys y gymuned yn ein gwaith, trwy roi gwybodaeth iddyn nhw, a thrwy weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn meithrin ethos cymunedau mwy diogel, ac i ddarparu gwasanaethau sy’n cynnig gwell gwerth am arian i’r rhai sy’n byw, yn gweithio, neu’n ymweld â chanolbarth a gorllewin Cymru.

Gwaith yr Awdurdod yw darparu gwasanaethau ataliol rhagweithiol, a gwasanaethau tân ac achub adweithiol i bobl canolbarth a gorllewin Cymru mewn ffordd agored, dryloyw a chost-effeithiol, ac i weithredu er budd gorau canolbarth a gorllewin Cymru a'i dinasyddion. Wrth wneud hyn, mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ymdrechu i weithredu er lles yr holl awdurdodau cyfansoddol a’u dinasyddion, gan osod lles cyffredinol uwchlaw budd unigolion neu grwpiau penodol, yn unol ag egwyddorion gorau llywodraeth leol ddemocrataidd. Hefyd, rhaid i’r Awdurdod wneud y canlynol:

- Cytuno ar Gynlluniau Gwella Blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf a'r cyfraniad gan yr awdurdodau cyfansoddol.
- Monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ar unrhyw gyfraniadau atodol.

Mae'r Prif Swyddog Tân yn arwain Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae ganddo reolaeth gorfforaethol gyffredinol a chyfrifoldeb gweithredol dros y sefydliad, ac mae’n Bennaeth y Gwasanaeth â Thâl.



# EIN GWELEDIGAETH

I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

# OUR VISION

To deliver the best possible service for the communities of Mid and West Wales.



#EichGTACGC #YourMAWWFRS

## YMDDYGIADAU

- Bod yn Atebol
- Bod yn Barchus
- Dangos Uniondeb
- Bod yn Ddiduedd
- Bod yn Foesegol

## GALLUOGI

- Ein pobl
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Llywodraethu, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.
- Strategaeth Ddigidol a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Cadernid Ariannol
- Partneriaethau a Chydweithio

Petai gweithlu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael ei gywasgu i grŵp o

**oddeutu 100 o bobl**

gan gadw'r holl gymarebau dynol presennol fel y maent, byddai'r sefyllfa fel a ganlyn:

**81** Dyn

**20** Benyw

**45** o aelwydydd sengl

**27** o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg

**2** yn Lesbiaidd, Hoyw neu'n Ddeurywiol

**5** o'r gweithlu ag anabledd

**33** yn Gristnogion

**1** yn arddel crefydd arall

religion **37** heb grefydd

(**29** yn dewis peidio â dweud)

**7** o bobl 16-24 oed

**55** o bobl 25-44 oed

**37** o bobl 45-64 oed

**1** person dros 65+ oed

**92** o bobl o gefndir gwyn ac **1** o gefndir nad yw'n wyn

(heb gynnwys Diffoddwyr Tân Ar Alwad)

**2** aelwyd sy'n ennill llai na 27K y flwyddyn

**3** aelwyd sy'n ennill mwy na 58K y flwyddyn

# Y Sefyllfa Bresennol

## Y Dyletswyddau sy’n Benodol i Gymru yn y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)

Mae'r adran hon yn dangos yr hyn yr ydym wedi'i wneud a'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud mewn perthynas â’r Dyletswyddau sy’n Benodol i Gymru; mae’n ategu, yn hytrach na dyblygu, yr wybodaeth yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cynhwysfawr.

## Amcan 1
## Eiriol dros Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Rydyn ni eisiau creu amgylchedd gwaith lle mae pawb, waeth beth fo'u cefndir, yn teimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Byddwn yn sicrhau bod gan ein gweithwyr y sgiliau a’r wybodaeth y bydd arnyn nhw eu hangen i fod yn eiriolwyr dros amrywiaeth a chynhwysiant ac i sicrhau tegwch yn eu gwaith.**

### Yr hyn a wnaethom

- Rydym wedi gofyn i Staff am adborth ar y Broses Arfarnu bresennol er mwyn adolygu, symleiddio ac ymgorffori ymddygiadau’r Gwasanaeth trwy gydol cylch bywyd cyflogeion.
- Rydym wedi adolygu a datblygu mentora a hyfforddiant o fewn y Gwasanaeth er mwyn cryfhau datblygiad staff ynghyd â’r Broses Arfarnu.
- Rydym wedi datblygu hyfforddiant niwroamrywiaeth er mwyn gwella ymwybyddiaeth, annog cynhwysiant, a rhoi gwybodaeth a sgiliau i staff y gwasanaeth tân er mwyn eu paratoi i gefnogi cydweithwyr a dinasyddion niwroamrywiol yn effeithiol.
- Rydym wedi cadw ein tystysgrif Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, a byddwn yn dal i ddatblygu trwy’r camau sy’n dilyn.
- Rydym yn parhau i weithio tuag at leihau’r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau.
- Rydym oll wedi cael hyfforddiant *Active Bystander* yn ogystal â hyfforddiant Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a Diogelu.
- Rydym wedi cysylltu â darparwr allanol i gydweithio â ni wrth greu hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gorfodol.
- Mae ein Gwasanaeth yn lle diogel a chroesawgar. Yn ogystal â’n staff, gall aelodau’r cyhoedd sy’n agored i niwed ddefnyddio ein gorsafoedd fel hafan ddiogel hefyd.

- Rydym wedi annog ein staff i gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau gyda'r tîm rheoli, gan dynnu sylw at fanteision amrywiaeth gwybyddol. Mae agwedd 'drws agored' yn sicrhau y gall unigolion siarad â'r uwch reolwyr, ar bob lefel, os ydynt eisiau mynegi pryderon neu drafod syniadau.
- Rydym wedi sicrhau bod manylebau ein tendrau a'n meini prawf cymhwyso a gwobrwyo o ran darparu hyfforddiant yn gyfredol ac yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.
- Rydym wedi sefydlu Gweithgor Diwylliant a Chynhwysiant er mwyn creu platfform gwrando sy'n helpu staff i rannu syniadau ar gyfer datblygu diwylliant a chynhwysiant y sefydliad mewn modd cadarnhaol. Trwy ganolbwyntio ar farn, sylwadau a safbwyntiau pobl, mae'r grŵp yn meithrin llais sefydliadol er mwyn datblygu argymhellion sy'n bodloni anghenion y Gwasanaeth yn ogystal â chreu amgylchedd gwaith sy'n iach, diogel a chynhwysol.
- Mae ein Rhanbarthau wedi cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i rannu syniadau ynghylch arweinyddiaeth a allai ddatblygu staff ymhellach.
- Mae ein Gweithwyr wedi rhoi adborth yn rhagweithiol am amryw o sesiynau hyfforddi gyda'r nod o wella rhaglenni hyfforddi'r dyfodol.
- Rydym wedi datblygu Hyfforddiant Addasiadau Rhesymol er mwyn sicrhau bod rheolwyr yn deall beth yw eu cyfrifoldebau o ran darparu addasiadau priodol yn y gweithle, meithrin amgylchedd cynhwysol, a chefnogi unigolion sydd ag anghenion amrywiol.
- Rydym wedi creu blwch 'Awgrymiadau am Newidiadau' er mwyn rhoi cyfle i staff rannu syniadau, cynnig gwelliannau, a mynegi pryderon mewn ffordd gyfrinachol a hygyrch. Mae hyn yn meithrin diwylliant o welliant parhaus a chynhwysiant o fewn y Gwasanaeth.

## Beth sydd angen i ni ei wneud

- Diweddaru ein hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn ymateb i adborth a gafwyd gan staff.
- Datblygu hyfforddiant Gwrth-fwlio a Gwrth-aflonyddu er mwyn meithrin dealltwriaeth a sgiliau ymhlith staff i'w galluogi i adnabod, atal, a mynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu yn y gweithle, gan feithrin diwylliant o barch, cynhwysiant, a diogelwch seicolegol i bawb.
- Adolygu a gwella'r llinell adrodd 'Codwch eich llais' yn ogystal â'r broses ddisgyblu.
- Adolygu ac adnewyddu sgiliau arwain a rheoli pawb sydd mewn swydd reoli.
- Rhaid i'n huwch reolwyr ymgorffori egwyddorion atebolrwydd, tryloywder, a gwyleidd-dra wrth iddyn nhw feithrin diwylliant mwy cynhwysol a chefnogol yn y sefydliad.

# Amcan 2

# Adeiladu gweithle amrywiol a deniadol lle mae cyfleoedd i dyfu

**Ein nod yw cyflogi, meithrin a chadw tîm talentog, amrywiol a dwyieithog sy'n adlewyrchu'r cymunedau sy'n defnyddio ein gwasanaeth.**

## Yr hyn a wnaethom

- Rydym wedi parhau i ymgysylltu â budd-ddeiliaid allanol er mwyn denu amrywiaeth o ymgeiswyr mewn ffeiriau gyrfaoedd.
- Rydym yn parhau â'r gwaith i gau bylchau ac i sicrhau cydymffurfiaeth lwyr â Safonau'r Gymraeg.
- Rydym wedi hysbysebu swyddi arbenigol mewn cyhoeddiadau penodol, gan sicrhau bod pob hysbyseb swydd yn annog amrywiaeth o bobl i ymgeisio.
- Rydym wedi mynd i ddigwyddiadau mewn Colegau er mwyn hyrwyddo'r Gwasanaeth Tân ac i sicrhau bod myfyrwyr o bob cefndir yn ymwybodol o'r cyfleoedd y gall Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru eu cynnig.
- Rydym wedi hyrwyddo'r Gwasanaeth trwy greu hysbysebion dyfeisgar, taflenni ar gyfer gorsafoedd unigol, trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a thrwy gynnal sgyrsiau ag aelodau'r cyhoedd. Cafodd rhai swyddi eu hysbysebu gan ddefnyddio clipiau fideo, a hynny er mwyn denu ystod ehangach o ymgeiswyr.
- Rydym wedi cyflwyno newid i'r broses gyfweld ar gyfer pob ymgeisydd amser cyflawn, ac mae pob ymgeisydd bellach yn cael copi o'r cwestiynau 15 munud cyn y cyfweliad. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn lleddfu pryder ymgeiswyr, yn eu hannog i roi atebion addas, ac yn creu proses mwy cynhwysol iddyn nhw.
- Rydym wedi defnyddio ein heiriolwyr recriwtio Ar-Alwad er mwyn hyrwyddo'r Gwasanaeth ac er mwyn denu mwy o ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau gwrywaidd a benywaidd o'r cyhoedd.

## Beth sydd angen i ni ei wneud

- Gwella dealltwriaeth ar draws y Gwasanaeth o ran pwysigrwydd cael gweithlu amrywiol a sut y gall gweithredu cadarnhaol gefnogi'r nod yma.
- Parhau i adolygu ac i wella ein prosesau recriwtio a chyflogi, gan gynnwys gwella hysbysebion swyddi a disgrifiadau swyddi er mwyn iddyn nhw fod yn fwy cynhwysol.
- Creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer interniaethau a phrentisiaethau, yn benodol ar gyfer grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n dda.
- Edrych ar feddalwedd llenwi swyddi sy'n gallu anfon negeseuon i bersonél neu ymgeiswyr

blaenorol a allai fod â diddordeb mewn gweithio i'r sefydliad.

- Cynnal arolwg staff i weld sut mae trefniadau gweithio hyblyg yn cael eu defnyddio ar draws y sefydliad.

# Amcan 3

# Sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio ein gwasanaethau a'n cyfleusterau

**Byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau a'n cyfleusterau yn hygyrch ac yn gynhwysol i unrhyw un sydd angen eu defnyddio.**

## Yr hyn a wnaethom

- Rydym wedi cynhyrchu fideos ar-lein fel ffordd amgen o gyfleu negeseuon allweddol.
- Rhanbarthau wedi ymdrechu i ymgysylltu â'u cymunedau er mwyn meithrin ymddiriedaeth yn ogystal â sicrhau bod eu gwaith yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ymatebol i anghenion y gymuned.
- Mae ein tîm caffael wedi ymgysylltu â Busnesau Bach a Chanolig lleol er mwyn dymchwel cynifer o rwystrau sy'n eu hatal rhag tendro am waith ag sy'n bosibl, ac i'w galluogi i gystadlu yn gyfartal â chyflenwyr cenedlaethol. Roedd hynny'n cynnwys mynd i ddigwyddiad Expo Busnes Cymru yn Arena Abertawe, nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu cyn tendro a drefnom ar gyfer rhai fframweithiau Ystadau, a chyflwyniadau mewn digwyddiadau i fusnesau bach a chanolig a drefnwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin a Cwmpas.
- Fe wnaethom ystyried Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob un o'n gweithgareddau caffael.
- Fe wnaethom sefydlu rhwydwaith o Lysgenhadon Cymunedol. Mae'r Llysgenhadon yn cynnwys cynrychiolwyr ag ystod eang o wahanol brofiadau o bob rhan o ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru, a byddant yn chwarae rhan ganolog wrth helpu i lunio'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ac yn cynorthwyo i greu amgylchedd cadarnhaol a chefnogol o fewn cymunedau. Byddant hefyd yn gweithredu fel cyswllt rhwng y Gwasanaeth ac aelodau'r gymuned, gan helpu i gyfathrebu gwybodaeth bwysig, hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol, a chynrychioli barn cymunedau lleol.
- Rydym wedi datblygu Asesiad cynhwysfawr o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn ogystal â gweithgaredd mapio budd-ddeiliaid, er mwyn adnabod y prif ddylanwadwyr, y penderfynwyr, a'r rhai sy'n cael eu heffeithio, a hynny er mwyn cefnogi'r broses ymgysylltu â'r CRhRC 2040 diweddar, pan geisiwyd barn budd-ddeiliaid am y gwasanaethau y mae'r Gwasanaeth yn eu darparu. Rydym yn ailedrych ar y map budd-ddeiliaid yn rheolaidd, a hynny'n rhan o'r broses ymgysylltu ar gyfer CRhRC 2040, er mwyn sicrhau ymgysylltiad cynhwysol ac effeithiol ac i hyrwyddo cydraddoldeb.
- Rydym wedi creu ystafell lesiant y gall aelodau'r system Ar Alwad ei defnyddio i orffwys, i gefnogi eu lles, ac i baratoi ar gyfer eu dyletswyddau.

## Beth sydd angen i ni ei wneud

- Cynnal asesiad o hygyrchedd pob safle er mwyn gweld pa mor hygyrch yw ein hadeiladau a'n cyfleusterau, ac yna sicrhau bod cyllid yn cefnogi'r buddsoddiadau angenrheidiol.
- Parhau i wneud gwelliannau a chael achrediad Hyderus o Ran Anabledd lefel 3



# Yr holl ddata i'w gwblhau a'i gynnwys cyn cyhoeddi yn Ebrill 2025

## DATA STAFF (01 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025)

### Rhyw

| | |
|---|---|
| Benyw | 257 |
| Gwryw | 1003 |
| **Cyfanswm** | **1260** |

### Anabledd (Wedi'i Ddatgan)

| | |
|---|---|
| Benyw | 13 |
| Gwryw | 46 |
| **Cyfanswm** | **59** |

### Oed

| | | |
|---|---|---|
| 16-24 | 19 | 71 |
| 25-34 | 59 | 227 |
| 35-44 | 82 | 331 |
| 45-54 | 61 | 267 |
| 55-64 | 32 | 102 |
| 65+ | 4 | 5 |
| **Cyfanswm** | **257** | **1003** |

### Crefydd neu Gred

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Cristion | 62 | 352 |
| Islam | 1 | 2 |
| Bwdhydd | 0 | 3 |
| Jehovah | 1 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Dim | 99 | 374 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 94 | 272 |
| **Cyfanswm** | **257** | **1003** |

### Hil/Ethnigrwydd

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Asiaidd (Bangladeshaidd) | 1 | 1 |
| Asiaidd (Indiaidd) | 1 | 0 |
| Asiaidd (Arall) | 0 | 2 |
| Du Affricanaidd | 0 | 2 |
| Du Caribïaidd | 0 | 1 |
| Prydeinig | 223 | 904 |
| Gwyn Arall | 3 | 14 |
| Cymysg (Asiaidd a Gwyn) | 0 | 2 |
| Cymysg (Gwyn a Du Caribïaidd) | 0 | 1 |
| Cymysg (Arall) | 0 | 6 |
| Cymysg (Gwyn a Du Affricanaidd) | 0 | 1 |
| Gwyddelig | 0 | 1 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 27 | 59 |
| Gwyn | 2 | 9 |
| **Cyfanswm** | **257** | **1003** |

### Statws Priodasol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Sengl | 113 | 449 |
| Priod | 106 | 463 |
| Mewn partneriaeth | 10 | 29 |
| Wedi ysgaru | 13 | 30 |
| Gweddw | 3 | 1 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 6 |
| Wedi Gwahanu | 2 | 4 |
| Arall | 2 | 2 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 8 | 19 |
| **Cyfanswm** | **257** | **1003** |

### Hunaniaeth Rhywedd yr un fath ag yr oedd ar enedigaeth

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Ydy | 195 | 806 |
| Nac ydy | 0 | 1 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 62 | 196 |
| **Cyfanswm** | **257** | **1003** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Deurywiol | 5 | 10 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 10 | 3 |
| Heterorywiol | 187 | 765 |
| Person trawsryweddol | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 55 | 225 |
| **Cyfanswm** | **257** | **1003** |

## Beichiogrwydd a Mamolaeth

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Do | 19 | 0 |
| Naddo | 238 | 1003 |
| **Cyfanswm** | **257** | **1003** |



## Data Staff yn ôl Lefel Rheoli

| Rhyw | | Rheolwr Ardal[+] | Rheolwr Gorsaf a Rheolwr Grŵp [07-15] | Rheolwr Criw a Rheolwr Gwylfa [04-06] | Diffoddwr Tân [01-03] |
|---|---|---|---|---|---|
| Benyw | | 2 | 61 | 96 | 98 |
| Gwryw | | 12 | 104 | 367 | 520 |
| | **Cyfanswm** | **14** | **165** | **463** | **618** |

| System Ddyletswydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Benyw | 0 | 9 | 9 | 28 |
| | Gwryw | 8 | 63 | 139 | 153 |
| **Amser Cyflawn** | **Cyfanswm** | **8** | **72** | **148** | **181** |
| | Benyw | 0 | 2 | 4 | 8 |
| | Gwryw | 0 | 0 | 6 | 6 |
| **Ystafell Reoli** | **Cyfanswm** | **0** | **2** | **10** | **14** |
| | Benyw | 2 | 50 | 81 | 17 |
| | Gwryw | 4 | 41 | 52 | 2 |
| **Cefnogaeth** | **Cyfanswm** | **6** | **91** | **133** | **19** |
| | Benyw | 0 | 0 | 2 | 45 |
| | Gwryw | 0 | 0 | 170 | 359 |
| **Ar Alwad** | **Cyfanswm** | **0** | **0** | **172** | **404** |

***Yn dilyn dyfarniadau cyflog, newidiwyd y graddau cyflog er mwyn adlewyrchu cyfnodau adrodd blaenorol yn gywir.**

## Recriwtio Amser Cyflawn (01 Ebrill 2024–31 Mawrth 2025)

### Rhyw

| | |
|---|---|
| Benyw | 2 |
| Gwryw | 18 |
| **Cyfanswm** | **20** |

### Anabledd (Wedi'i Ddatgan)

| | |
|---|---|
| Benyw | 1 |
| Gwryw | 2 |
| **Cyfanswm** | **3** |

### Oed

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| 16-24 | 0 | 4 |
| 25-34 | 2 | 7 |
| 35-44 | 0 | 7 |
| 45-54 | 0 | 0 |
| 55-64 | 0 | 0 |
| 65+ | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **18** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Du Affricanaidd | 0 | 0 |
| Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Du (Arall) | 0 | 0 |
| Asiaidd Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Asiaidd Pacistanaidd | 0 | 0 |
| Asiaidd Indiaidd | 1 | 0 |
| Asiaidd Arall | 0 | 0 |
| Prydeinig | 1 | 13 |
| Tsieineeg | 0 | 0 |
| Ewropeaidd | 0 | 0 |
| Teithiwr | 0 | 0 |
| Cymysg (Du/Gwyn) | 0 | 0 |
| Cymysg (Asiaidd/Du) | 0 | 0 |
| Cymysg (Asiaidd/Gwyn) | 0 | 0 |
| Cymysg Arall | 0 | 0 |
| Gwyn | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 0 | 5 |
| Arall | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **18** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Deurywiol | 0 | 0 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 1 | 0 |
| Heterorywiol | 1 | 12 |
| Person trawsryweddol | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 0 | 6 |
| **Cyfanswm** | **2** | **18** |

## Statws Priodasol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Sengl | 2 | 6 |
| Priod | 0 | 8 |
| Mewn partneriaeth | 0 | 0 |
| Wedi ysgaru | 0 | 1 |
| Gweddw | 0 | 0 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 0 |
| Wedi Gwahanu | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 0 | 3 |
| **Cyfanswm** | **2** | **18** |

## Crefydd neu Gred

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Cristion | 0 | 2 |
| Islam | 0 | 0 |
| Bwdhydd | 0 | 0 |
| Sikh | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Dim | 2 | 8 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 0 | 8 |
| **Cyfanswm** | **2** | **18** |

## Hunaniaeth Rhywedd yr un fath ag yr oedd ar enedigaeth

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Ydy | 2 | 13 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 0 | 5 |
| **Cyfanswm** | **2** | **18** |



# Staff Amser Cyflawn sy'n Gadael (01 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025)

## Rhyw

| | |
|---|---|
| Benyw | 3 |
| Gwryw | 38 |
| **Cyfanswm** | **41** |

## Anabledd (Wedi'i Ddatgan)

| | |
|---|---|
| Benyw | 0 |
| Gwryw | 3 |
| **Cyfanswm** | **3** |

## Oed

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| 16-24 | 0 | 0 |
| 25-34 | 1 | 4 |
| 35-44 | 2 | 6 |
| 45-54 | 0 | 12 |
| 55-64 | 0 | 16 |
| 65+ | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** | **38** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Tsieineeg | 0 | 1 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Indiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn Prydeinig | 1 | 34 |
| Gwyn Arall | 0 | 1 |
| Asiaidd a Gwyn | 0 | 0 |
| Arall Cymysg | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **3** | **38** |

## Crefydd neu Gred

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Cristion | 0 | 12 |
| Islam | 0 | 0 |
| Bwdhydd | 0 | 1 |
| Sikh | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Dim | 1 | 11 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 2 | 14 |
| **Cyfanswm** | **3** | **38** |

## Statws Priodasol


| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Sengl | 0 | 7 |
| Priod | 2 | 23 |
| Mewn partneriaeth | 1 | 0 |
| Wedi ysgaru | 0 | 4 |
| Gweddw | 0 | 0 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 0 |
| Wedi Gwahanu | 0 | 2 |
| Arall | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 0 | 2 |
| **Cyfanswm** | **3** | **38** |

## Hunaniaeth Rhywedd yr un fath ag yr oedd ar enedigaeth

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Ydy | 0 | 28 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 3 | 10 |
| **Cyfanswm** | **3** | **38** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Deurywiol | 0 | 1 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 1 | 0 |
| Heterorywiol | 0 | 24 |
| Person trawsryweddol | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 2 | 13 |
| **Cyfanswm** | **3** | **38** |



## Recriwtio Staff Ar Alwad (01 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025)

### Rhyw

| | |
|---|---|
| Benyw | 15 |
| Gwryw | 82 |
| **Cyfanswm** | **97** |

### Anabledd (Wedi'i Ddatgan)

| | |
|---|---|
| Benyw | 1 |
| Gwryw | 8 |
| **Cyfanswm** | **9** |

### Oed

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| 16-24 | 6 | 30 |
| 25-34 | 5 | 22 |
| 35-44 | 4 | 23 |
| 45-54 | 0 | 6 |
| 55-64 | 0 | 1 |
| 65+ | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **15** | **82** |

### Hil/Ethnigrwydd

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Tsieineeg | 0 | 0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 0 | 1 |
| Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Indiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn Prydeinig | 12 | 66 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Arall Cymysg | 0 | 3 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 3 | 12 |
| **Cyfanswm** | **15** | **82** |

### Crefydd neu Gred

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Cristion | 1 | 18 |
| Islam | 0 | 0 |
| Bwdhydd | 0 | 1 |
| Sikh | 0 | 0 |
| Arall | 1 | 0 |
| Dim | 10 | 47 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 3 | 16 |
| **Cyfanswm** | **15** | **82** |

### Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Deurywiol | 1 | 2 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 1 | 0 |
| Heterorywiol | 10 | 61 |
| Person trawsryweddol | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 3 | 19 |
| **Cyfanswm** | **15** | **82** |

### Statws Priodasol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Sengl | 11 | 45 |
| Priod | 2 | 23 |
| Mewn partneriaeth | 1 | 1 |
| Wedi ysgaru | 0 | 1 |
| Gweddw | 0 | 0 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 2 |
| Wedi Gwahanu | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 1 | 10 |
| **Cyfanswm** | **15** | **82** |

### Hunaniaeth Rhywedd yr un fath ag yr oedd ar enedigaeth

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Ydy | 13 | 70 |
| Nac ydy | 0 | 1 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 2 | 11 |
| **Cyfanswm** | **15** | **82** |

# Staff Ar Alwad sy’n Gadael (01 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025)

## Rhyw

| | |
|---|---|
| Benyw | 5 |
| Gwryw | 48 |
| **Cyfanswm** | **53** |

## Anabledd (Wedi’i Ddatgan)

| | |
|---|---|
| Benyw | 0 |
| Gwryw | 1 |
| **Cyfanswm** | **1** |

## Oed

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| 16-24 | 0 | 4 |
| 25-34 | 1 | 13 |
| 35-44 | 3 | 8 |
| 45-54 | 1 | 6 |
| 55-64 | 0 | 15 |
| 65+ | 0 | 2 |
| **Cyfanswm** | **5** | **48** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Tsieineeg | 0 | 0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Indiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn Prydeinig | 5 | 47 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Asiaidd a Gwyn | 0 | 0 |
| Arall Cymysg | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **5** | **48** |

## Crefydd neu Gred

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Cristion | 1 | 19 |
| Islam | 0 | 0 |
| Bwdhydd | 0 | 0 |
| Sikh | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 1 |
| Dim | 4 | 23 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 0 | 5 |
| **Cyfanswm** | **5** | **48** |

## Statws Priodasol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Sengl | 3 | 20 |
| Priod | 1 | 19 |
| Wedi ysgaru | 0 | 2 |
| Gweddw | 0 | 1 |
| Mewn partneriaeth | 1 | 1 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 2 |
| Wedi Gwahanu | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 0 | 3 |
| **Cyfanswm** | **5** | **48** |

## Hunaniaeth Rhywedd yr un fath ag yr oedd ar enedigaeth

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Ydy | 5 | 42 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Mae’n Well gen i Beidio â Dweud | 0 | 6 |
| **Cyfanswm** | **5** | **48** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Deurywiol | 0 | 1 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 0 | 0 |
| Heterorywiol | 4 | 39 |
| Person trawsryweddol | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 1 | 8 |
| **Cyfanswm** | **5** | **48** |

# Recriwtio Staff Cefnogol (01 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025)

## Rhyw

| | |
|---|---|
| Benyw | 13 |
| Gwryw | 9 |
| **Cyfanswm** | **22** |

## Anabledd (Wedi'i Ddatgan)

| | |
|---|---|
| Benyw | 0 |
| Gwryw | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** |

## Oed

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| 16-24 | 1 | 0 |
| 25-34 | 4 | 2 |
| 35-44 | 3 | 0 |
| 45-54 | 5 | 5 |
| 55-64 | 0 | 2 |
| 65+ | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **13** | **9** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Tsieineeg | 0 | 0 |
| Asiaidd Arall | 0 | 1 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 0 | 1 |
| Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Indiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn Prydeinig | 9 | 6 |
| Gwyn Arall | 1 | 0 |
| Arall Cymysg | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 3 | 1 |
| **Cyfanswm** | **13** | **9** |

## Crefydd neu Gred

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Cristion | 1 | 2 |
| Islam | 0 | 0 |
| Bwdhydd | 0 | 0 |
| Sikh | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Dim | 3 | 1 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 9 | 6 |
| **Cyfanswm** | **13** | **9** |

## Statws Priodasol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Sengl | 4 | 3 |
| Priod | 5 | 2 |
| Wedi ysgaru | 2 | 1 |
| Gweddw | 0 | 1 |
| Mewn partneriaeth | 1 | 1 |
| Wedi Gwahanu | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **13** | **9** |

## Hunaniaeth Rhywedd yr un fath ag yr oedd ar enedigaeth

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Ydy | 6 | 5 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 7 | 4 |
| **Cyfanswm** | **13** | **9** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Deurywiol | 0 | 0 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 2 | 0 |
| Heterorywiol | 8 | 8 |
| Person trawsryweddol | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 3 | 1 |
| **Cyfanswm** | **13** | **9** |

# Staff Cefnogol sy'n Gadael (01 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025)

## Rhyw

| | |
|---|---|
| Benyw | 9 |
| Gwryw | 8 |
| **Cyfanswm** | **17** |

## Anabledd (Wedi'i Ddatgan)

| | |
|---|---|
| Benyw | 0 |
| Gwryw | 1 |
| **Cyfanswm** | **1** |

## Oed

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| 16-24 | 0 | 0 |
| 25-34 | 1 | 1 |
| 35-44 | 2 | 1 |
| 45-54 | 4 | 2 |
| 55-64 | 2 | 4 |
| 65+ | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **9** | **8** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Tsieineeg | 0 | 0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Indiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn Prydeinig | 7 | 8 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Asiaidd a Gwyn | 1 | 0 |
| Arall Cymysg | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **9** | **8** |

## Crefydd neu Gred

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Cristion | 4 | 2 |
| Islam | 0 | 0 |
| Bwdhydd | 0 | 0 |
| Sikh | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Dim | 1 | 3 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 4 | 3 |
| **Cyfanswm** | **9** | **8** |

## Statws Priodasol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Sengl | 2 | 1 |
| Priod | 4 | 6 |
| Wedi ysgaru | 2 | 0 |
| Gweddw | 0 | 0 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 1 |
| Wedi Gwahanu | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **9** | **8** |

## Hunaniaeth Rhywedd yr un fath ag

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Ydy | 6 | 7 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 3 | 1 |
| **Cyfanswm** | **9** | **8** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Deurywiol | 0 | 0 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 0 | 0 |
| Heterorywiol | 8 | 7 |
| Person trawsryweddol | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **9** | **8** |



## Data Dyrchafiadau (01 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025)

### Rhyw

| | |
|---|---|
| Benyw | 11 |
| Gwryw | 27 |
| **Cyfanswm** | **38** |

### Anabledd (Wedi'i Ddatgan)

| | |
|---|---|
| Benyw | 1 |
| Gwryw | 2 |
| **Cyfanswm** | **3** |

### Oed

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| 16-24 | 3 | 0 |
| 25-34 | 2 | 8 |
| 35-44 | 4 | 11 |
| 45-54 | 2 | 6 |
| 55-64 | 0 | 2 |
| 65+ | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **11** | **27** |

### Hil/Ethnigrwydd

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Tsieineeg | 0 | 0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Indiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn Prydeinig | 11 | 25 |
| Gwyn Arall | 0 | 2 |
| Asiaidd a Gwyn | 0 | 0 |
| Arall Cymysg | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **11** | **27** |

### Crefydd neu Gred

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Cristion | 1 | 7 |
| Islam | 0 | 0 |
| Bwdhydd | 0 | 0 |
| Sikh | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 1 |
| Dim | 6 | 9 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 4 | 10 |
| **Cyfanswm** | **11** | **27** |

### Statws Priodasol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Sengl | 8 | 14 |
| Priod | 3 | 12 |
| Mewn partneriaeth | 0 | 0 |
| Wedi ysgaru | 0 | 0 |
| Gweddw | 0 | 0 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 1 |
| Wedi Gwahanu | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **11** | **27** |

### Hunaniaeth Rhywedd yr un fath ag

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Ydy | 10 | 19 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 1 | 8 |
| **Cyfanswm** | **11** | **27** |

### Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Deurywiol | 0 | 0 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 0 | 0 |
| Heterorywiol | 9 | 19 |
| Person trawsryweddol | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 2 | 8 |
| **Cyfanswm** | **11** | **27** |

# Data Adleoli Gweithwyr (01 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025)

## Rhyw

| Rhyw | |
|---|---|
| Benyw | 7 |
| Gwryw | 40 |
| **Cyfanswm** | **47** |

## Anabledd (Wedi'i Ddatgan)

| Anabledd (Wedi'i Ddatgan) | |
|---|---|
| Benyw | 0 |
| Gwryw | 4 |
| **Cyfanswm** | **4** |

## Oed

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| 16-24 | 1 | 1 |
| 25-34 | 0 | 8 |
| 35-44 | 4 | 12 |
| 45-54 | 2 | 18 |
| 55-64 | 0 | 1 |
| 65+ | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **7** | **40** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Tsieineeg | 0 | 0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Indiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn Prydeinig | 6 | 38 |
| Gwyn Arall | 0 | 2 |
| Asiaidd a Gwyn | 0 | 0 |
| Arall Cymysg | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **7** | **40** |

## Crefydd neu Gred

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Cristion | 4 | 15 |
| Islam | 0 | 1 |
| Bwdhydd | 0 | 0 |
| Sikh | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Dim | 2 | 11 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 1 | 13 |
| **Cyfanswm** | **7** | **40** |

## Statws Priodasol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Sengl | 6 | 16 |
| Priod | 1 | 21 |
| Mewn partneriaeth | 0 | 1 |
| Wedi ysgaru | 0 | 1 |
| Gweddw | 0 | 0 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 0 |
| Wedi Gwahanu | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **7** | **40** |

## Hunaniaeth Rhywedd yr un fath ag

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Ydy | 6 | 33 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 1 | 7 |
| **Cyfanswm** | **7** | **40** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Deurywiol | 0 | 0 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 0 | 0 |
| Heterorywiol | 6 | 30 |
| Person trawsryweddol | 0 | 0 |
| Mae'n Well gen i Beidio â Dweud | 1 | 10 |
| **Cyfanswm** | **7** | **40** |

# Data a Gasglwyd drwy Systemau Recordio Digwyddiadau'r Gwasanaeth

(01 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025)

## Oed y Dioddefwr

| | |
|---|---|
| <16 | 182 |
| 17-25 | 126 |
| 26-40 | 184 |
| 41-55 | 128 |
| 56-70 | 232 |
| 70+ | 461 |
| Oed yn anhysbys | 521 |
| **Cyfanswm** | **1834** |

## Rhyw

| | |
|---|---|
| Benyw | 780 |
| Gwryw | 1026 |
| Anhysbys | 22 |
| Amhenodol | 6 |
| **Cyfanswm** | **1834** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | |
|---|---|
| Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig – Bangladeshaidd | 0 |
| Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig – Indiaidd | 9 |
| Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig – Asiaidd Arall | 4 |
| Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig – Pacistanaidd | 1 |
| Du neu Du Brydeinig – Affricanaidd | 3 |
| Du neu Du Brydeinig – Caribïaidd | 0 |
| Du neu Du Brydeinig – Du Arall | 5 |
| Tsieineeg | 0 |
| Cymysg – Cymysg Arall | 4 |
| Cymysg – Gwyn ac Asiaidd | 4 |
| Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd | 1 |
| Cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd | 1 |
| Anhysbys/Heb Ddatgan | 145 |
| Gwyn – Prydeinig | 1634 |
| Gwyn – Gwyddelig | 5 |
| Gwyn – Gwyn Arall | 18 |
| **Cyfanswm** | **1834** |



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

EIN GWELEDIGAETH
I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

OUR VISION
To deliver the best possible service for the communities of Mid and West Wales.

#EichGTACGC #YourMAWWFRS

# Rhagor o wybodaeth

**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg – mae'r ddwy iaith yn gydradd a byddwn yn ymateb yn eich dewis iaith heb oedi. Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth fanylach am y meysydd sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Yn adran Ein Cynlluniau a Pherfformiad ar ein gwefan, fe welwch wybodaeth am y canlynol:

- Cynlluniau Corfforaethol
- Cynlluniau Gwelliant Blynyddol
- Adroddiadau Ymgynghori
- Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru
- Adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Cymru
- Y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan

Rydyn ni'n croesawu eich sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau cynllunio yn y dyfodol.

I roi eich adborth, gallwch gysylltu â ni drwy ein gwefan **www.tancgc.gov.uk/cym/**, ein ffonio ni ar **0370 6060699** neu ysgrifennu atom ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Lôn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP.

Neu gallwch anfon e-bost i **mail@mawwfire.gov.uk**

**Fersiynau Amgen**
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch. Os hoffech chi gael yr wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall, gan gynnwys sain, cysylltwch â ni trwy ffonio: **0370 6060699** neu e-bost: **mail@mawwfire.gov.uk**

HOFFI DILYN RHANNU
LIKE FOLLOW SHARE

**Ein Negeseuon Diogelwch**
Our Safety Messages

**Adnoddau Dynol**
Human Resources

JR2085